Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board



# Adroddiad Bioamrywiaeth BIP Caerdydd a'r Fro

Rhagfyr 2025

## Cefndir a chyd-destun

### Bioamrywiaeth a'r ddyletswydd bioamrywiaeth

Mae dirywiad mewn bioamrywiaeth, ac effeithiau cynyddol amlwg newid yn yr hinsawdd ar ein hamgylchedd naturiol, yn berygl i iechyd pobl yng Nghaerdydd a'r Fro ac yn fyd-eang.

Mae **Deddf yr Amgylchedd (Cymru)** yn cyflwyno dyletswydd bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau uwch (y ddyletswydd 'adran 6') sy'n berthnasol i gyrff cyhoeddus gan gynnwys y Bwrdd Iechyd. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gyhoeddi adroddiad ar y camau y mae'n eu cymryd i gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth o leiaf unwaith bob 3 blynedd; ac i nodi ac adolygu'n rheolaidd gynllun gweithredu bioamrywiaeth.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'n trefniadau llywodraethu mewnol

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd weithredu yn unol â'r pum ffordd o weithio (bob un ohonynt yn berthnasol i fioamrywiaeth: hirdymor, integreiddio, cydweithio, cynnwys ac atal) a chyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol (gan gynnwys 'Cymru gydnerth' sy'n cynnwys cynnal a chyfoethogi amgylchedd naturiol bioamrywiol, ac ecosystemau sydd â'r gallu i addasu i newid yn yr hinsawdd).

O dan y Ddeddf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gosod pedwar amcan llesiant (strategol) fel rhan o'n strategaeth hirdymor, **Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol**, ac un ohonynt yw **'Gweithredu ar gyfer y dyfodol'** ac mae'n cynnwys camau i wella cynaliadwyedd amgylcheddol.

Mae trefniadau llywodraethu mewnol ar gyfer nodi ac adrodd ar gamau gweithredu i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth drwy'r Bwrdd Cynaliadwyedd ac Ymateb i'r Hinsawdd, sy'n rhan o'r portffolio Llunio Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n gyfrifol am gyflawni'r amcan 'Gweithredu ar gyfer y dyfodol'.

Mae'r BIP yn gweithredu System Rheoli Amgylcheddol ac wedi cyflawni'r Achrediad Safon Ryngwladol ISO14001 sy'n cael ei asesu'n allanol drwy'r Sefydliad Safonau Prydeinig. Mae'r BIP hefyd yn gweithredu Polisi Rheoli Amgylcheddol trosfwaol sy'n cynnwys Rheoli Ynni, Dŵr a Chynaliadwyedd.

### Ein gweithgareddau sy'n effeithio ar fioamrywiaeth

Mae BIP Caerdydd a'r Fro wedi ei gategoreiddio fel sefydliad Grŵp 3 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru); mae'r sefydliadau hyn yn 'berchen ar dir neu'n rheoli tir y tu hwnt i'w tiroedd eu hunain, p'un a yw eu swyddogaethau'n gysylltiedig â bioamrywiaeth a/neu reoli tir ai peidio.'.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn effeithio'n bennaf ar fioamrywiaeth drwy'r gweithgareddau canlynol:

| Categori | Gweithgareddau |
|---|---|
| **Caffael** | Prynu, gweithgynhyrchu, cyflenwi a chludo nwyddau a deunyddiau i'r BIP |
| **Rheoli ynni ac allyriadau** | Allyriadau hylosgi uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n effeithio ar ansawdd aer a bioamrywiaeth |
| **Adeiladau newydd** | Datblygu cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd y Bwrdd Iechyd |
| **Dŵr a gwaredu carthffrwd** | Defnyddio dŵr, triniaethau dŵr a gwaredu carthffrwd i ddraeniau sy'n effeithio ar fioamrywiaeth ddŵr. Mae hyn yn cynnwys dŵr glaw a systemau carthffosiaeth |

| Categori | Gweithgareddau |
|---|---|
| **Rheoli gwastraff** | Bydd cynhyrchu, rheoli, ailgylchu a gwaredu gwastraff yn effeithio'n uniongyrchol ar fioamrywiaeth |
| **Teithio a thrafnidiaeth gynaliadwy** | Bydd rheoli traffig, defnyddio cerbydau’r BIP ac opsiynau teithio cynaliadwy yn effeithio'n uniongyrchol ar fioamrywiaeth |
| **Rheoli tir** | Bydd cynnal a chadw tiroedd, gerddi, llwybrau, ffyrdd a thoeau yn effeithio'n uniongyrchol ar fioamrywiaeth |

## Yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r prif gamau gweithredu y cymerodd BIP Caerdydd a’r Fro dros y cyfnod o dair blynedd rhwng Ionawr 2023 a Rhagfyr 2025 i wella a diogelu bioamrywiaeth.

O 2026/27 ymlaen, rydym yn bwriadu symleiddio ein prosesau cynllunio ac adrodd ar fioamrywiaeth i gyd-fynd â'n cylchoedd cynllunio ac adrodd corfforaethol arferol, yn unol â'r arfer gorau a nodir mewn canllawiau cenedlaethol. Ceir rhagor o wybodaeth am adrodd yn y dyfodol yn adran olaf yr adroddiad hwn.

## Uchafbwyntiau, canlyniadau allweddol a materion

Yn 2023 gwnaethom gynnal **adolygiad manwl o'r dystiolaeth** sy’n cysylltu bioamrywiaeth ac iechyd, gan weithio gyda phartneriaid. Mae'r adroddiad dilynol yn tynnu sylw at **nifer o argymhellion i gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth.**

Yn dilyn yr adroddiad, gwnaethom gomisiynu **arolygon ecolegol o'n prif safleoedd** i ddeall yn well y camau targedig ychwanegol y gallwn eu cymryd. Roedd y rhain yn tynnu sylw at werth ecolegol isel yn Ysbytai'r Barri a Dewi Sant, gyda rhai ardaloedd o werth ecolegol uchel yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochau.

Gwnaethom hefyd ymgysylltu â phartneriaid gan gynnwys Partneriaethau Natur Lleol a RSPB Cymru.

Rydym yn parhau i wynebu **heriau wrth nodi capasiti digonol yn fewnol** i ymgorffori'r gwaith hwn yn llawn, ac mae hyn yn parhau i fod yn un o'n camau blaenoriaeth.

## Camau gweithredu a gymerwyd

### Adroddiad 'Dod â bywyd gwyllt yn ôl'

*(yn cyfrannu at amcan 1 y Cynllun Gweithredu Adfer Natur (CGAN))*

Yn 2023 gwnaethom gynnal adolygiad manwl o'r dystiolaeth sy'n cysylltu bioamrywiaeth ac iechyd, gan weithio gyda phartneriaid.

Gall natur helpu i wella iechyd drwy gefnogi ymarfer corff a rhyngweithio cymdeithasol, gwella microbiom pobl, cefnogi camau addasu i newid yn yr hinsawdd, lleihau llygredd aer, hyrwyddo ymlacio, darparu fferylliaeth, a darparu bwyd. O ganlyniad, gall natur a bioamrywiaeth helpu i leihau marwolaethau pob achos, gwella canlyniadau geni, lleihau nifer yr achosion o ddiabetes math 2, lleihau problemau iechyd meddwl, a lleihau straen, ymysg canlyniadau eraill.

Mae adroddiad blynyddol dilynol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd ('Dod â bywyd gwyllt yn ôl: ailgysylltu â natur a'i adferer budd bioamrywiaeth ac iechyd') yn tynnu sylw at nifer o argymhellion i gyrff cyhoeddus gryfhau gweithredu ar fioamrywiaeth.

Mae'r argymhellion y gweithredodd BIP Caerdydd a'r Fro arnynt yn cynnwys (am ragor o fanylion am y rhain gweler yr adrannau isod):

- Cynnal arolygon ecolegol o'n safleoedd
- Gweithio gyda Phartneriaethau Natur Lleol
- Lleihau torri gwair
- Sefydlu cynllun presgripsiynu natur

Mae'r argymhellion sy'n weddill yn cynnwys:

- Gweithredu argymhellion o'r arolygon ecolegol (gweler isod)
- Hyrwyddo llwybrau cerdded natur lleol
- Annog a hwyluso amser i weithwyr ei dreulio gyda natur yn ystod seibiannau yn y gwaith
- Gwella ardaloedd diraddiedig a chreu mannau bioamrywiol newydd
- Darparu cyfleoedd i weithwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau amgylcheddol gwirfoddol

### Arfarniadau ecolegol

*(yn cyfrannu at amcanion 1, 2 a 5 y CGAN)*

Gwnaethom gomisiynu arfarniadau ecolegol o'r safleoedd allweddol canlynol yn ein hystâd yn 2024: Ysbyty'r Barri, Ysbyty Dewi Sant, Ysbyty Athrofaol Llandochau, Ysbyty Athrofaol Cymru

Roedd canfyddiadau'r arolygon yn cynnwys:

**Ysbyty'r Barri**

- Mae safle a thir Ysbyty'r Barri yn cyflwyno gwerth **amrywiaeth ecolegol isel**.
- Mae **pum maes o welliannau ecolegol** wedi eu hargymell i gynyddu gwerth ecolegol y safle. Yn gyntaf, gwella'r glaswelltir o dan goed collddail gyda phlanhigion plwg o flodau gwyllt brodorol. Yn ail, plannu gwrychoedd newydd i gysylltu cynefinoedd gwrychoedd a lleihau'r bylchau mewn gwrychoedd presennol â rhywogaethau brodorol. Yn drydydd, gwella'r cynefin glaswelltir amwynder i dyfu blodau gwyllt. Yn bedwerydd, gwella'r ardal goetir gyda blychau a

bwydwyr adar, gwestai pryfed a phwll bach. Yn olaf, plannu yn y ffin noeth ger y brif fynedfa gyda phlanhigion synhwyraidd sy'n ddeniadol i bryfed peillio  a phobl.

**Ysbyty Dewi Sant**

- Mae safle a thir Ysbyty Dewi Sant yn cyflwyno gwerth **amrywiaeth ecolegol isel**.
- Mae **pedwar maes o welliannau ecolegol** wedi eu hargymell i gynyddu gwerth ecolegol y safle. Yn gyntaf, cadw a gwella'r cynefin prysgwydd presennol ar ffin chwith y safle. Yn ail, gwneud y gwrychoedd o amgylch y safle yn fwy trwchus, yn dalach ac yn fwy amrywiol, a chysylltu cynefinoedd gwrychoedd (ffin). Yn drydydd, gwella'r ardd bresennol yn Ysbyty Dewi Sant i gynnwys plannu blodau gwyllt, planhigion synhwyraidd, gorsafoedd bwydo adar, a phwll bach. Yn olaf, gwella'r gwelyau blodau garddwriaethol o amgylch y safle i ymgorffori rhywogaethau brodorol sy'n ddeniadol i bryfed peillio a phobl.

**Ysbyty Athrofaol Llandochau**

- Mae safle a thir Ysbyty Athrofaol Llandochau yn cyflwyno **sawl cynefin sydd â gwerth ecolegol uchel** ac mae'r safle wedi'i gysylltu â safleoedd gwerth ecolegol uwch yn ddaearyddol.
- Mae **saith maes o welliannau ecolegol** wedi eu hargymell i gynyddu gwerth ecolegol y safle. Yn gyntaf, gwella'r glaswelltir o dan goed collddail gyda phlanhigion plwg o flodau gwyllt brodorol. Yn ail, plannu gwrychoedd newydd i leihau'r bylchau mewn gwrychoedd presennol. Yn drydydd, plannu mosaig prysgwydd gyda thaldra a strwythurau amrywiol. Yn bedwerydd, plannu o amgylch y pyllau draenio cynaliadwy. Yn bumed, gwella'r ardaloedd blodau gwyllt presennol ar gyfer anifeiliaid di-asgwrn cefn. Yn chweched, tyfu cynefin glaswelltir amwynder gyda'r nod o dyfu blodau gwyllt. Yn olaf, plannu coed newydd mewn ardaloedd penodol o laswelltir amwynder.




*Ffigur. Map dosbarthu Ysbyty Athrofaol Llandochau yn nodi'r cynefinoedd a arsylwyd (o arfarniad ecolegol 2024)*

**Ysbyty Athrofaol Cymru**

- Mae safle a thir Ysbyty Athrofaol Cymru (YAC) yn cyflwyno **rhai cynefinoedd sydd â gwerth ecolegol uchel** ac mae'r safle wedi'i gysylltu â safleoedd gwerth ecolegol uwch yn ddaearyddol.
- Mae **pum maes o welliannau ecolegol** wedi eu hargymell i gynyddu gwerth ecolegol y safle. Yn gyntaf, gwella'r glaswelltir o dan goed collddail gyda phlanhigion plwg o flodau gwyllt brodorol. Yn ail, plannu gwrychoedd newydd i gysylltu cynefinoedd gwrychoedd a lleihau'r bylchau mewn gwrychoedd presennol â rhywogaethau brodorol. Yn drydydd, plannu ychwanegol mewn ardaloedd mwsogl yng ngardd yr ysbyty. Yn bedwerydd, plannu mosaig prysgwydd gyda thaldra a strwythurau amrywiol. Yn olaf, gwella'r cynefin glaswelltir amwynder i dyfu blodau gwyllt.



*Ffigur. Cynefin coetir yn Ysbyty Athrofaol Cymru (o arfarniad ecolegol 2024)*

## Gweithio gyda sefydliadau partner

*(yn cyfrannu at amcanion 1, 2 a 6 y CGAN)*

Yn ystod y tair blynedd diwethaf rydym wedi gweithio gyda sefydliadau partner i gefnogi'r gwaith o hybu a diogelu bioamrywiaeth, gan gynnwys:

- Partneriaethau Natur Lleol – gosod arwyddion ar ein safleoedd sy'n tynnu sylw at newidiadau mewn arferion torri gwair i ddiogelu bioamrywiaeth
- RSPB Cymru - datblygu presgripsiwn natur i Gymru
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru – ymweliad â'r Ddôl yn Ysbyty Athrofaol Llandochau

## Integreiddio colli bioamrywiaeth i'n hasesiad risg newid yn yr hinsawdd

*(yn cyfrannu at amcanion 1 a 4 y CGAN)*

Yn ystod 2025 rydym wedi bod yn cynnal asesiad risg newid yn yr hinsawdd ar gyfer BIP Caerdydd a'r Fro, i nodi a llywio'r camau sydd eu hangen ar gyfer addasu i'r hinsawdd. Rydym hefyd wedi cyfrannu at asesiadau rhanbarthol a gynhaliwyd gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd a Bro Morgannwg.

Fel rhan o'n hasesiad rydym wedi nodi colli bioamrywiaeth fel risg fewnol ac allanol sy'n effeithio ar y Bwrdd Iechyd.

Ar hyn o bryd mae gennym gynllun datgarboneiddio ar waith ar gyfer y Bwrdd Iechyd, ac rydym yn diweddaru hyn yn rheolaidd, sy'n cefnogi'n anuniongyrchol y gwaith o ddiogelu bioamrywiaeth.

## Cefnogi systemau bwyd cynaliadwy

*(yn cyfrannu at amcanion 1 a 6 y CGAN)*

Mae BIP Caerdydd a'r Fro yn cynnal Synnwyr Bwyd Cymru, sefydliad sy'n gweithredu ledled Cymru i ddylanwadu ar sut y caiff bwyd ei gynhyrchu a'i fwyta, gan sicrhau bod bwyd, ffermio a physgodfeydd cynaliadwy wrth wraidd system fwyd gyfiawn, gysylltiedig a ffyniannus.

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn arwain ar gydgysylltu'r ddau rwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn ein hardal leol, Bwyd Caerdydd a Bwyd y Fro.

Drwy Synnwyr Bwyd Cymru, Bwyd Caerdydd a Bwyd y Fro, rydym yn cefnogi amaethyddiaeth a bwyta bwyd mwy cynaliadwy, gan leihau'r colli bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn.

## Camau gweithredu 'busnes fel arfer'

*(yn cyfrannu at amcanion 2, 3 a 4 y CGAN)*

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Torri glaswellt, chwynnu, plannu a rheoli ffiniau/gerddi cwrt a thoeau 'wedi'u hadu' (Hafan-y-Coed), casglu sbwriel a dail, cymryd rhan ym 'Mai Di Dor'
- Cynnal Arolygon Coed Blynyddol yn ôl yr angen ac ymgysylltu â chontractwyr arbenigol i gynnal a chadw coed a'u cadwraeth.
- Rheoli a chynnal a chadw Pwll Glan y Llyn YAC drwy gontractwr arbenigol.
- Rheoli bywyd gwyllt yn ôl yr angen drwy gontractwr arbenigol a mabwysiadu mesurau rheoli plâu priodol.
- Mae Cynlluniau Cyfalaf wedi'u datblygu a'u cynllunio yn unol â safonau a chanllawiau bioamrywiaeth perthnasol gan gynnwys: Asesiadau BREAAM, Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy, Systemau Draenio Cynaliadwy ac ati.
- Y Ddôl yn Ysbyty Athrofaol Llandochau

## Adrodd ac adolygu’r cynllun gweithredu bioamrywiaeth yn y dyfodol

O 2026/27 ymlaen, rydym yn bwriadu symleiddio ein prosesau cynllunio ac adrodd ar fioamrywiaeth i gyd-fynd â'n cylchoedd cynllunio ac adrodd corfforaethol arferol, yn unol â'r arfer gorau a nodir yn y canllawiau:

- Byddwn yn **adrodd** ar gamau gweithredu bioamrywiaeth a gymerwyd yn adroddiad blynyddol BIP Caerdydd a’r Fro, sy'n cael ei gyhoeddi ychydig fisoedd ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol.
- Byddwn yn ymgorffori'r adolygiad o'n **cynllun gweithredu bioamrywiaeth** a’n dyletswydd adran 6 yn ein cylch cynllunio arferol. Byddwn yn diweddaru'r cynllun bob blwyddyn drwy nodi a blaenoriaethu camau gweithredu sy’n weddill fel rhan o'n cynllun blynyddol / proses cynllunio tymor canolig integredig. Felly, byddwn yn diweddaru ac yn cyhoeddi cynllun bioamrywiaeth wedi'i adnewyddu fel rhan o'n cynllun blynyddol 2026/27, cyn mis **Ebrill 2026**.